

Profi'r Celfyddydau: Cydweithio Creadigol, Canllawiau Cyllidebol

Gall ysgolion a/neu sefydliadau celfyddydol ymgeisio am £5,000-£15,000 i ddatblygu prosiectau arloesol ac uchelgeisiol. Gweler y prosiectws am fanylion pellach am yr hyn y gallwn ei ariannu.

Er mwyn inni brosesu eich cais, rhaid inni weld yn glir sut y bwriadwch wario'r arian yr ymgeisiwch amdano a dyma'r rheswm y gofynnwn ichi lenwi'r ffurflen gyllidebol mor gywir â phosibl.

Rhai canllawiau:

- Dylai costau eich arbenigedd creadigol gynnwys ffioedd dyddiol realistig ar gyfer y bobl creadigol broffesiynol dalentog neu'r arbenigwyr eraill sy'n gweithio gyda chi. Os enilla unrhyw unigolyn dros £5,000 o'i ymgyfranogiad o'r prosiect, bydd yn rhaid ichi sicrhau y dewisir hwnnw drwy broses ddewis agored, heblaw bod rheswm penodol ac artistig taer dros wneud fel arall.

Faint ac ar beth?

- Disgwyliwch wario'r rhan fwyaf o'ch cyllideb ar ffioedd proffesiynol.
- Yn fras, ni ddisgwyliwn i brynu deunyddiau a/neu logi offer i fod yn fwy nag 20% o'ch cyllideb.
- Rhaid i gost weinyddu fod yn llai na 10% o gyfanswm eich cyllideb.
- Ar gyfer unrhyw swm sy'n fwy na 5% o gyfanswm eich cyllideb, bydd yn rhaid ichi ei ddadansoddi.
- Os yw'ch prosiect yn gofyn am logi stiwdios/safleoedd perfformio, bydd yn rhaid inni ystyried talu cost y rhain pan fo'n ychwanegol at eich gorbenion arferol. Er enghraifft, os yw'ch prosiect yn gofyn am ddefnyddio lle mewn theatr, ystyriwn dalu'r costau hyn.

Pwysigrwydd bod yn fanwl

- Gellwch godi am ffioedd technegwyr yn ogystal â ffioedd pobl creadigol broffesiynol.
- Gellwch gynnwys rhai costau marchnata a chyhoeddusrwydd yn eich cyllideb, ond disgwyliwn mai'r isaf posibl y bydd y rhain. Ni fydd yn rhaid ichi gyflwyno cynllun marchnata.
- Ni allwn dalu rhagor na 90% o gostau eich prosiect Cydweithio Creadigol felly rhaid ichi gynnwys, fel y dangosir, fanylion o gyfraniad eich arian cyfatebol (mewn arian neu nwyddau).
- Ar ôl ichi lenwi eich cyllideb, rhaid ei mantoli fel bo cyfanswm yr incwm yr un peth â chyfanswm y gwariant.